**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

16 Tachwedd 2021

Annwyl Rebecca

Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Yn ein cyfarfod brynhawn ddoe, fe wnaethom ystyried Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (y Rheoliadau) ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd rhinweddau cyntaf yn ein hadroddiad drafft, sydd bellach wedi cael ei osod.

Fel y gwyddoch, rydym wedi gofyn am y rheswm dros osod y Rheoliadau gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021, gan nodi y cafodd y rheoliadau cyfatebol sy'n gymwys i Loegr (Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (OS 2021/398)) eu gosod gerbron Senedd y DU ar 25 Mawrth 2021, pan ddaethant i rym, sef dros saith mis cyn y Rheoliadau pwnc.

Mae'r ymateb yn codi dau fater sydd, fe gredwn, yn gofyn am ystyriaeth bellach.

Yn gyntaf, rydych chi'n nodi:

> *"Gosodwyd Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (O.S.2021/398)) (Rheoliadau LlDU) gerbron Senedd y DU, a daethant i rym, ar 25 Mawrth. Cafodd Rheoliadau LlDU eu gosod heb drafod ymlaen llaw gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd yr amseru o ran gwneud Rheoliadau LlDU yn golygu nad oedd yn bosibl datblygu polisi neu reoliadau a oedd yn gymwys i Gymru ar unwaith, gan fod cyfnod cyn-etholiadol Senedd Cymru yn weithredol rhwng 25 Mawrth a 6 Mai."*

Mae'r ymateb hwn yn awgrymu bod amseriad a chynnwys polisi a rheoliadau Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yn gweithredu fel trothwy i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai a/neu sut y dylai ddatblygu polisi a chyfraith mewn maes datganoledig yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar pe gallech eglurhad pellach ynghylch hyn.

Yn ail, mae'r ymateb i'n hadroddiad ar y Rheoliadau yn cau gyda'r datganiad a ganlyn:

> *"Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, lluniwyd fersiwn derfynol o'r rheoliadau drafft ac fe'u gosodwyd ar y dyddiad cynharaf posibl. Digwyddodd hyn ar 1 Tachwedd, gan yr ystyrid ei bod yn arfer gwael gosod y rheoliadau yr wythnos flaenorol, hy, yn ystod y toriad."*

Rwy'n cydnabod bod bwriad da y tu ôl i ddymuniad i beidio â gosod rheoliadau gerbron y Senedd mewn wythnos pan na chynhelir Pwyllgorau na Chyfarfod Llawn, ond nid digwyddiad anghyffredin yw'r ffaith bod Gweinidogion Cymru yn gwneud felly. Yn wir, yn yr wythnos benodol yn ystod y toriad dan sylw, cafodd Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 eu gosod gerbron y Senedd yn eich enw chi. Hefyd, yn ystod yr un wythnos, gosododd Gweinidogion Cymru bum set o reoliadau ar amryw faterion eraill. Byddem yn awgrymu, lle mae "brys" a "risg uniongyrchol" yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau natur weddol eithafol yr achos hwn o dorri'r rheol 21 diwrnod (gan y cafodd y Rheoliadau eu gosod ychydig dros saith awr cyn iddynt ddod i rym), y byddai'n fwy priodol pe bai'r Rheoliadau wedi cael eu gosod cyn gynted â'u bod wedi cael eu drafftio, eu llofnodi a'u cofrestru. O weithredu yn y modd hwn, gyda llaw, byddai'r bobl y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt wedi cael mwy nag ychydig o oriau o rybudd fod y gyfraith ar fin newid. Gobeithiwn y byddwch yn cadw hyn mewn cof yn y dyfodol.

Mae eich ymateb ynglŷn â'r Rheoliadau yn berthnasol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), a gobeithiio y byddwch yn tynnu sylw at y Rheoliadau yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig i gydsynio i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.